OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 86 (Cy. 16)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Wrecsam i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *5 Chwefror 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu ei gyfyngu ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug), Wrecsam i Ffin Cymru/Lloegr) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Chwefror 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 5 Chwefror 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Gwaharddiadau a chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai cerbytffordd tua’r gogledd neu gerbytffordd tua’r de y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.**—(1) Tra bo cerbydau’n cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r gogledd gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad ydynt yn cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r de, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua’r de i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua’r gogledd.

(2) Tra bo cerbydau’n cael eu gwahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua’r de gan erthygl 3 ond, yn unol ag erthygl 12, nad ydynt yn cael eu gwahardd rhag

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

symud ar y gerbytffordd tua'r gogledd, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gogledd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n lletach na 3.2 metr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**9.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**10.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**11.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1, 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**12.**—(1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal dros dro**

**13.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 4 a 5 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 8, 9 a 10 yn weithredol.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**14.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Ionawr 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Gwrthlif

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 3.2 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at bwynt 150 o fetrau i'r gogledd o Pulford Brook wrth ffin Cymru/Lloegr.

## ATODLEN 2
## Gwahardd cerbydau llydan dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ffin Cymru/Lloegr.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug).

## ATODLEN 3
## Gwahardd cerbydau a beicwyr dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd).

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd

wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd) hyd at ffin Cymru/Lloegr yn Pulford Brook.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr yn Pulford Brook hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd a thua'r de wrth Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) a Chyffordd 7 (Cyfnewidfa'r Orsedd).

**ATODLEN 4**
**Terfyn cyflymder 30 mya neu 40 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gyffordd 5 (Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug) hyd at ffin Cymru/Lloegr.

**ATODLEN 5**
**Terfyn cyflymder 50 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r de o Gyffordd 6 (Cyfnewidfa Gresffordd) hyd at ffin Cymru/Lloegr.